Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Glastir

## Glastir Creu Coetir

## Canllawiau Map Cyfleoedd

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020



# Creu Coetir Glastir:
# Canllaw i'r Map Cyfleoedd

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut gall map cyfleoedd Creu Coetir Glastir eich helpu i benderfynu ble i blannu coetir newydd yng Nghymru

## Cynnwys


**1. BLE MAE MAP CYFLEOEDD CREU COETIR GLASTIR** 3

**2. DEWIS IAITH** 3

**3. DEFNYDDIWCH Y MAP** 4

Cam 1: Cael hyd i ardal o ddiddordeb

Cam 2: Dewis map sylfaen

Cam 3: Dewiswch yr haenau a newid y tryloywder

Cam 4: Tynnu amlinell ardal blannu newydd

Cam 5: Tynnu llinell ffens

Cam 6: Gweld a oes safle sensitif yn yr ardal blannu newydd

Cam 7: Gwybodaeth am sgorau Creu Coetir

Cam 8: Gwybodaeth am yr Haenau Canllawiau Arbennig

**Atodiad 1:** Pam cafodd y map cyfleoedd ei ddatblygu? 11

**Atodiad 2 :** Sut cafodd y map cyfleoedd ei ddatblygu 11

**Atodiad 3:** Haenau sgorio Creu Coetir 12

**Atodiad 4:** Haenau gwybodaeth Creu Coetir 14

## 1. BLE MAE MAP CYFLEOEDD CREU COETIR GLASTIR

Cronfa ddata sy’n darparu gwybodaeth ddaearyddol ar-lein yw ‘Lle’. Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol amdani. I’w gweld, ewch i http://lle.gov.wales/apps/woodlandopportunities/?lang=cy. Neu ewch i wefan Lle a chlicio ar ‘Application’ a dewis “Creu Coetir Glastir: Map Cyfleoedd” – gweler Ffigur 1 isod.

**Ffigur 1 – Sut i gael hyd i fap cyfleoedd Creu Coetir Glastir o dudalen hafan Lle.**




## 2. DEWIS IAITH

Wrth ichi agor map cyfleoedd Creu Coetir Glastir, bydd bocs gwybodaeth i’w weld yng nghornel dde ucha’r sgrin. Cliciwch arno os ydych am weld y fersiwn Saesneg. Gallwch newid yr iaith o’r Gymraeg i’r Saesneg unrhyw bryd.

## 3. DEFNYDDIO MAP CYFLEOEDD CREU COETIR GLASTIR (GWC)

Mae'r adran hon yn eich helpu i weld a yw darn o dir yn addas i blannu coetir arno, ac yn dangos sut i gael gwybod a oes cyfyngiadau neu safle sensitif yn yr ardal. (gweler Atodiad 4 am ragor o wybodaeth).

**Cam 1: Cael hyd i ardal o ddiddordeb**
Mae 3 ffordd o gael hyd i le o ddiddordeb:-

- Defnyddiwch y botwm sgrolio ar eich llygoden i 'zwmio' i mewn i'r ardal o ddiddordeb.

- Defnyddio'r botymau 'zwmio' yng nghornel chwith uchaf sgrin y map (symbolau + ac -) – (gweler Ffigur 2 – 1A).

- Defnyddiwch yr opsiwn chwilio ar dop y sgrin (gweler Ffigur 2 – 1 B) trwy deipio enw lle, cod post neu gyfeirnod grid e.e. Aberystwyth, SY23 3UR (gan gynnwys y bwlch) neu SN 591 809.

Pa le bynnag y bydd eich cyrchwr dros y map, bydd cyfeirnod grid 6 digid yn ymddangos yng nghornel dde isa'r sgrin. Gallai fod yn ddefnyddiol wrth wneud cais plannu (gweler Ffigur 2 – 1C).

Yn Ffigur 2, mae yna ardaloedd gwyrdd o wahanol fathau yn ogystal â mannau tryloyw gyda map yr Arolwg Ordnans (OS) i'w weld oddi tanynt. Mae'r rhannau gwyrdd yn golygu **nad oes cyfyngiadau na materion sensitif rydym yn gwybod amdanyn nhw** o ran creu coetir. Mae darn tryloyw yn dangos safleoedd sensitif ac mae'n debygol y bydd angen ichi holi'r rhanddeiliad.

**Cam 2: Dewis map sylfaen**
Y cam nesaf yw dewis pa fap sylfaen yr hoffech ei ddefnyddio – naill ai map testun llwyd, map lliwiau neu lun o'r awyr (gweler Ffigur 2 – 2A).

**Cam 3: Dewiswch yr haenau a newid y tryloywder**
Dim ond y 'Sgôr Creu Coetir' sydd wedi'i droi ymlaen ar yr Haen Sgorio, ond gallwch ddewis rhai eraill, gan gynnwys coetir sy'n bod eisoes er enghraifft (gweler Ffigur 2 – 3A). Cewch fwy o wybodaeth am yr haenen sgorio Creu Coetir yn Atodiad 2.

I newid dyfnder lliw'r haen (hynny yw, pa mor dryloyw ydyw), cliciwch ar symbol y llygad a sgrolio'r bar tryloywder nes ichi daro ar y lefel sydd orau ichi (gweler Ffigur 3 – 3B).

**Cam 4: Tynnu amlinell ardal blannu newydd**
Cliciwch y bocs 'Mesur pellteroedd ac arwynebeddau' (gweler Ffigur 2 – 4A) a dewis yr opsiwn 'Creu arwynebedd newydd a'i fesur'. Gallwch ddefnyddio'r cyrchwr a chlicio botwm chwith y llygoden i dynnu amlinell o gwmpas y safle sydd gennych mewn golwg i greu coetir ynddo.

Ar ôl tynnu amlinell addas, dwbl-gliciwch â botwm chwith y llygoden ar y pwynt olaf a bydd blwch 'Maint yr Arwynebedd' yn ymddangos (gweler Ffigur 6). Dangosir arwynebedd y coetir newydd mewn hectarau a gallwch ei ddefnyddio yn eich cais GWC.

**Cam 5: Tynnu llinell ffens**
Cliciwch 'creu llinell newydd a'i mesur' (gweler Ffigur 2 – 4A) i fesur hyd ffens o gwmpas safle coetir newydd. Defnyddiwch fotwm chwith y llygoden i glicio man cychwyn y ffens gan roi clic ychwanegol bob tro'ch bod am newid cyfeiriad. Rhowch ddwbl-glic ar ei diwedd. Mae Ffigur 5 yn dangos llinell goch i ddangos ffens o gwmpas rhan o goetir newydd.


**Cam 6: Gweld a oes safle sensitif yn yr ardal blannu newydd.**
**Mae gwyrdd yn golygu nad oes cyfyngiadau yn yr ardal na safleoedd sensitif.** Mewn ardaloedd tryloyw, bydd cyfyngiadau neu faterion sensitif yn cael eu dangos ar ôl ichi dynnu amlinell ardal blannu newydd (Cam 4). I weld materion sensitif unigol, cliciwch ar y testun glas "Cliciwch yma i weld pwyntiau o ddiddordeb y mae'r ardal hon yn gorgyffwrdd â nhw" (gweler Ffigur 6 – bocs coch A). I gael mwy o wybodaeth am y safle sensitif, cliciwch y label sensitifedd (gweler Ffigur 6 – bocs coch B). Fe welwch focs gwybodaeth arall yn disgrifio'r safle sensitif ac yn eich cysylltu chi â'r rhanddeiliad perthnasol (gweler Ffigur 6 – C).

**Cam 7: Gwybodaeth am sgorau Creu Coetir**
Cliciwch ar y teitl Sgôr Creu Coetir i gael rhagor o wybodaeth am yr haenau (gweler Ffigur 7 – bocs coch A). Gallwch glicio hefyd ar yr haenau unigol (gweler Ffigur 7 – bocs coch B ac C). Mae Atodiad 3 yn rhoi gwybodaeth gefndir am haenau sgorio Creu Coetir.


**Cam 8: Gwybodaeth am yr Haenau Canllawiau Arbennig**
Cliciwch ar yr Haenau Canllawiau Arbennig i gael mwy o wybodaeth a manylion amdanynt. Er enghraifft, i wybod beth yw Cyrff Dŵr sy'n Sensitif i Asid, cliciwch ar y teitl yn y tabl cynnwys – gweler Ffigur 8 – bocs coch A. Gallwch glicio ar y testun glas yn y blychau gwybodaeth hyn i fynd i wefannau'r rhanddeiliaid dan sylw (gweler Ffigur 8 – bocs coch B).

**Ffigur 2: Cael hyd i ardal o ddiddordeb (Cam 1)**

**Ffigur 3: Newid tryloywder yr haen (Cam 3)**



## Ffigur 4: Tynnu amlinell coetir newydd (Cam 4)






## Ffigur 5: Tynnu llinell ffens (Cam 5)



**Ffigur 6: Gweld a oes safleoedd sensitif yn y coetir newydd (Cam 6)**








**Ffigur 7: Haen Sgorio Creu Coetir (Cam 7)**



**Ffigur 8: Haen Sgorio Creu Coetir (Cam 8)**



**Atodiad 1: Pam cafodd y map cyfleoedd ei ddatblygu?**
Glastir yw cynllun rheoli tir Llywodraeth Cymru sy'n talu ffermwyr a rheolwyr tir am ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Amcan cynllun Creu Coetir Glastir (GWC) yw helpu ffermwyr a rheolwyr tir i greu coetir newydd. llyw.cymru/glastir

Mae rhanddeiliaid wedi rhoi data gofodol inni i ddangos y mannau lle byddai'n addas neu'n anaddas plannu coetir arnynt (gweler Atodiad 2 am fanylion y data gofodol). Mae map cyfleoedd GWC wedi'i ddatblygu i ddangos canlyniadau uno'r setiau data gofodol hyn.

**Atodiad 2 : Sut cafodd y map cyfleoedd ei ddatblygu**
Mae pob haen data daearyddol naill ai'n perthyn i **haen sgorio** neu i **haen wybodaeth** h.y. yn dangos cyfyngiadau neu safleoedd sensitif a allai effeithio ar fwriad i blannu coetir newydd. Rhanddeiliaid sydd wedi rhoi'r data inni greu'r haenau hyn. Fe welwch restr o'r holl haenau data sy'n cael eu dangos ar fap cyfleoedd GWC yn Nhabl 1.


**Tabl 1 – Haenau sy'n cael eu dangos ar fap cyfleoedd GWC**

| **Haenen sgorio (Haenen werdd)** | **Haenen gwybodaeth (Haenen dryloyw)** |
|---|---|
| Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf | Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE/AONBs) |
| Ardaloedd Llygredd Sŵn | Rhedyn sy'n gynefin i'r Fritheg Berlog |
| Parthau Perygl Nitradau (NVZs) | Cofnodion Planhigion Tir Âr Sensitif |
| Addasrwydd y Cynefin (arolygon cynefinoedd) | Cynefinoedd Sensitif CNC (arolygon cynefinoedd) |
| Coetiroedd newydd ar Orlifdir a Glan Afon (NFPW) | Parciau Cenedlaethol â llain glustogi o 800m (heb gynnwys Bannau Brycheiniog) |
| Ardaloedd Llygredd Aer | Cynefin Posibl i Ffyngau Glaswelltir |
| Rhwydwaith Cynefinoedd Coetir (WHN) | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yr Ucheldir â llain glustogi o 500m |
| Prifysgol East Anglia: Y potensial i greu Coetir | Mawnogydd dwfn a mawnogydd dwfn wedi'u newid |
| | Cynefin Posibl Rhywogaethau Gwarchodedig (Adar) |
| | Cynefin Posibl Rhywogaeth Warchodedig (Madfall Ddŵr Gribog) |
| | Safle Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS) |
| | Heneb Restredig (SAM) |
| | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) |
| | SoDdGA Biolegol â llain glustogi o 300m |
| | Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol |
| | Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol |
| | Parciau a Gerddi Hanesyddol |
| | Safle Treftadaeth y Byd |

## Atodiad 3: Haenau sgorio Creu Coetir


I greu **"sgôr creu coetir"**, mae 8 haenen wedi'u halinio â grid $20m^2$ ac mae gan bob haenen ei sgôr. Fe welwch yr 8 set ddata yn Ffigur 9.

**Ffigur 9 – Setiau data daearyddol ar gyfer haenau sgorio Creu Coetir**




Mae'r haenau yn cael eu gosod un ar ben y llall a'u hadio at ei gilydd (gweler Ffigur 10) i roi'r sgôr creu coetir terfynol.  Mae'r sgôr yn cael ei dangos fel arlliw o wyrdd ar y map cyfleoedd.  Mae'r sgoriau Creu Coetir yn amrywio o 0 i 38.

**Ffig. 10: Enghraifft o gyfuno 2 set ddata i gael y sgôr creu coetir a ddangosir ar y map cyfleoedd**




Mae'r rhannau gwyrdd tywyll yn dangos y mannau sydd fwyaf addas ar gyfer plannu coetir newydd, er enghraifft lle bo haen rhwydwaith cynefin coetir neu ardal o lygredd sŵn mawr yn gorgyffwrdd â'i gilydd.  Mae Ffigur 11 yn dangos map cyfleoedd GWC a'r rhannau o wyrdd tywyll sydd fwyaf addas ar gyfer plannu coetir newydd ar lefel strategol.


**Ffig. 11: Enghraifft o'r map cyfleoedd GWC sy'n dangos rhannau sydd wedi'u lliwio'n wyrdd a darnau tryloyw.**



**Atodiad 4: Haenau gwybodaeth Creu Coetir**
Mae yna 18 o haenau gwybodaeth (gweler ffigur 12) sy’n dangos cyfyngiadau neu safleoedd sensitif o ran creu coetir. Rhanddeiliaid sydd wedi rhoi’r haenau gwybodaeth hyn inni a’r farn yw y byddai o bosibl yn anaddas creu coetir newydd arnynt.

Yn y cyd-destun hwn, mae’n bwysig cofio manylder y data. Rydym yn aml yn fwy gofalus nag efallai sydd ei angen er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd dan sylw yn cael eu diogelu. Er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cloriannu’n deg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n dilysu pob un o gynlluniau’r GWC i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau Coedwigaeth y DU (UKFS).

**Ffig. 12: Haenau gwybodaeth a ddefnyddiwyd ar fap cyfleoedd GWC**




Daw rhyw 50% o Gymru o dan o leiaf un haen wybodaeth. Mae’r ardaloedd hyn yn dryloyw ar fap cyfleoedd GWC. Bydd yr haenau gwybodaeth yn newid dros amser wrth i’r data gael eu mireinio neu wrth i bolisi newid. Mae hi’n ddigon posib bod yna ardaloedd addas i greu coetir newydd arnynt yn yr ardaloedd tryloyw hyn, yn enwedig o fewn y dynodiadau tirwedd mwyaf, fel AHNE neu Barciau Cenedlaethol, felly mae’n bwysig gofyn cyngor y rhanddeiliad perthnasol.